

CYNGOR CYMUNED BAGILLT
CYNLLUN CYHOEDDI GWYBODAETH ENGHREIFFTIOL A FABWYSIADWYD O IONAWR
1^{AF} 2009

Mae'r cynllun cyhoeddi gwybodaeth enghreifftiol wedi'i baratoi a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gall unrhyw awdurdod cyhoeddus ei fabwysiadu heb dderbyn cymeradwyaeth bellach a bydd yn ddilys nes y clywir yn wahanol.

Mae'r cynllun cyhoeddi yma'n ymrwymo awdurdod i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd yn rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Mae'r wybodaeth yn y cynllun i'w chael yn y categorïau gwybodaeth y sonnir amdanynt isod, lle mae'r awdurdod yn dal y manylion. Ceir cymorth ychwanegol i ddiffinio'r categorïau yma mewn llawlyfrau arweiniad sy'n berthnasol i sectorau penodol ac a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r cynllun yn ymrwymo'r awdurdod i:

Ddarparu a chyhoeddi gwybodaeth, neu sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn rheolaidd, yn cynnwys gwybodaeth amgylcheddol, y mae'r awdurdod yn ei dal ac sy'n perthyn i'r categorïau isod.

Esbonio pa wybodaeth y mae'r awdurdod yn ei dal ac sy'n perthyn i'r categorïau isod, Cyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol neu sicrhau mewn ffordd arall bod yr wybodaeth ar gael yn rheolaidd, yn unol â'r datganiadau sydd yn y cynllun yma.

Cynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau a ddefnyddir i sicrhau bod yr wybodaeth benodol ar gael yn rheolaidd fel bod modd i aelodau'r cyhoedd ei chanfod a'i gweld hawdd.

Adolygu a diweddarau'n rheolaidd yr wybodaeth y mae'r awdurdod yn sicrhau ei bod ar gael o dan y cynllun yma,

Cynhyrchu rhestr o'r ffioedd a godir am gael gafael ar wybodaeth a sicrhau ei bod ar gael yn rhagweithiol.

Sicrhau bod y cynllun cyhoeddi gwybodaeth yma ar gael i'r cyhoedd.

Categoriâu'r wybodaeth

Pwy ydym a'r hyn a wnawn,

Gwybodaeth am drefniant, lleoliadau a chysylltiadau, llywodraethu cyfreithiol a chyfansoddiadol

Yr hyn a wariwn a sut rydym yn ei wario.

Gwybodaeth ariannol yn ymwneud â'r incwm a gwariant a ragwelwn a'r incwm a gwariant gwirioneddol, tendro, caffael a chontractau.

Beth yw ein blaenoriaethau a sut yr ydym yn llwyddo i'w gweithredu

Gwybodaeth am berfformiad a strategaeth, cynlluniau, asesiadau, archwiliadau ac arolygon.

Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Cynigion a phenderfyniadau am bolisïau. Prosesau gwneud penderfyniadau, gweithdrefnau a meini prawf mewnol.

Ein polisïau a gweithdrefnau

Y protocolau ysgrifenedig presennol ar gyfer darparu ein gwasanaethau a chyfrifoldebau

Rhestrau a chofrestrau

Yr wybodaeth sy'n cael ei chadw mewn cofrestrau sy'n ofynnol gan y gyfraith a rhestrau a chofrestrau eraill yn ymwneud â gwaith yr awdurdod.

Y gwasanaethau a gynigiwn

Arweiniad a chynghor, llyfrynnau a thafleuni, trafodion a datganiadau i'r wasg. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir

Ni fydd y categorïau gwybodaeth yn cynnwys y canlynol fel arfer:

Gwybodaeth y mae'r gyfraith yn ein hatal rhag ei datgelu, neu y mae wedi'i heithrio o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu y caiff ei hystyried mewn ffordd arall yn wybodaeth sydd wedi'i diogelu rhag cael ei datgelu.

Gwybodaeth mewn ffurf ddrafft.

Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn hawdd am ei bod wedi'i chynnwys mewn ffeiliau sydd mewn storfa archifo, neu sy'n anodd cael gafael arni am resymau tebyg.

Sut y bydd yr wybodaeth a gyhoeddir o dan y cynllun yma ar gael i'r cyhoedd.

Bydd yr awdurdod yn dangos yn glir i'r cyhoedd pa wybodaeth sy'n rhan o'r cynllun yma a sut y gallent gael gafael arni

Pan fydd hynny o fewn gallu awdurdod lleol, darperir yr wybodaeth ar wefan.

Os nad yw'n ymarferol rhoi gwybodaeth ar wefan neu lle nad yw unigolyn eisiau cael gafael ar yr wybodaeth drwy fynd ar y wefan, bydd awdurdod cyhoeddus yn dangos sut y gellir cael gafael ar wybodaeth mewn ffyrdd eraill ac yn darparu'r ffyrdd hynny,

Dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd rhywfaint o wybodaeth ar gael dim ond o'i gweld yn bersonol. Lle nodir y dull yma, fe nodir y manylion cysylltu hefyd. Trefnir apwyntiad i weld yr wybodaeth o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Bydd yr wybodaeth wedi'i darparu yn yr iaith y mae'r wybodaeth yn cael ei dal ynnddi neu mewn iaith arall sydd yn ofynnol yn gyfreithiol. Lle mae gofyn i awdurdod gyfieithu unrhyw wybodaeth yn gyfreithiol, bydd yn gwneud hynny.

Wrth ddarparu gwybodaeth yn unol â'r cynllun yma, bydd yn cadw at y goblygiadau o dan y ddeddfwriaeth anabledd a gwahaniaethu a chyfreithiau eraill i ddarparu gwybodaeth mewn ffurfiau a fformatau eraill.

Costau allai gael eu codi am yr wybodaeth a gyhoeddir o dan y cynllun yma

Pwrpas y cynllun yma yw sicrhau bod y nifer fwyaf o fanylion ar gael yn hawdd am yr anghyfleustra lleiaf a'r gost isaf i'r cyhoedd. Bydd y costau a godir gan yr awdurdod am ddeunydd a gyhoeddir yn rheolaidd yn gyfiawn ac eglur ac wedi eu cadw i'r isafswm.

Bydd deunydd sy'n cael ei gyhoeddi a'i gadw ar wefan wedi'i ddarparu'n rhad ac am ddim.

Efallai y bydd costau i'w talu am wybodaeth yn ôl trefn godi ffi a bennwyd gan y Senedd.

Efallai y bydd ffi am alldaliadau gwirioneddol megis:

Llungopïo: postio a phacio: costau a grëir yn anuniongyrchol o ganlyniad i weld gwybodaeth

Efallai y codir ffi hefyd am wybodaeth a ddarperir o dan y cynllun yma lle mae awdurdod cyfreithiol ganddynt, yn cynnwys egwyddorion cyffredinol yr hawl i weld gwybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus, lle maent oll o dan yr amgylchiadau'n gyfiawn ac yn cyfateb â rhestr neu restrï o ffioedd a gyhoeddwyd sydd ar gael yn hawdd i'r cyhoedd.

Os codir ffi, rhoddir cadarnhad o'r taliad sy'n ddyledus cyn i'r wybodaeth gael ei darparu. Efallai y gofynnir am daliad cyn darparu'r wybodaeth.

Ceisiadau ysgrifenedig

Gallwch ofyn mewn ysgrifen am weld gwybodaeth y mae'r awdurdod cyhoeddus yn ei dal ond nad yw wedi'i chyhoeddi o dan y cynllun, a gwneir y penderfyniad ynglŷn â'i darparu neu beidio yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

YR WYBODAETH SYDD AR GAEL GAN GYNGOR CYMUNED BAGILLT O
DAN Y CYNLLUN CYHOEDDI GWYBODAETH ENGHREIFFTIOL

Yr wybodaeth sydd i gael ei chyhoeddi	Sut allwn ni gael gafael ar yr wybodaeth?	Y gost
Categori 1 – Pwy ydym a’r hyn a wnawn (Gwybodaeth am drefniant, strwythur, lleoliadau a chysylltiadau) Yr wybodaeth ddiweddaraf fydd hon bob amser		
Pwy ydy pwy ar y Cyngor a’i Bwyllgorau	Ar y wefan neu cysylltwch â’r Clerc	Am ddim
Manylion cyswllt y Clerc ac aelodau’r Cyngor	Ar y wefan, cysylltwch â’r Clerc neu yn Nhaflen Newyddion y Gymuned	Am ddim
Lleoliad prif swyddfa’r Cyngor a manylion cysylltu	Cyfeiriad cartref y Clerc	Am ddim
Y Strwythur Staffio	Penodiad y Clerc yn unig	Am ddim
Categori 2 – Yr hyn a wariwn a sut rydym yn ei wario (Gwybodaeth ariannol yn ymwneud â’r incwm a gwariant a ragwelwn a’r incwm a gwariant gwirioneddol, caffael, contractau ac archwiliad ariannol) Y flwyddyn ariannol bresennol a blaenorol o leiaf		
Y ffurflen ariannol flynyddol a’r adroddiad gan yr archwilydd	I gael copi caled cysylltwch â’r Clerc	£1.00p
Y gyllideb derfynol	I gael copi caled cysylltwch â’r Clerc	10c y dudalen
Archebiant	Cofnodion mis Ionawr y Cyngor, ar y wefan neu cysylltwch â’r Clerc	Am ddim
Llythyr cymeradwyo benthyciadau	Nid yw hyn yn berthnasol	
Archebion Sefydlog Ariannol a Rheoliadau	I gael copi caled cysylltwch â’r Clerc	10c y dudalen
Grantiau a roddwyd ac a dderbyniwyd	Cofnodion y Cyngor, y wefan neu cysylltwch â’r Clerc	Am ddim
Rhestr o’r contractau presennol a roddwyd a gwerth y contractau	I gael copi caled cysylltwch â’r Clerc	Am ddim
Lwfansau a threuliau’r aelodau	I gael copi caled cysylltwch â’r Clerc	Am ddim
Categori 3 – Beth yw ein blaenoriaethau a sut		

rydym yn llwyddo i'w gweithredu (Strategaethau a chynlluniau, dangosyddion perfformiad, archwiliadau, arolygon ac adolygiadau)		
Cynllun y Plwyf	Nid yw hyn yn berthnasol	
Adroddiad Blynyddol i gyfarfod y Gymuned	Nid yw hyn yn berthnasol	
Statws Ansawdd	Nid yw hyn yn berthnasol	
Siarteri Lleol a luniwyd yn unol â chanllawiau DCLG	Nid yw hyn yn berthnasol	
Categori 4 – Sut rydym yn gwneud penderfyniadau (Prosesau gwneud penderfyniadau a chofnodion o benderfyniadau) Y flwyddyn bresennol a'r flwyddyn flaenorol o leiaf		
Amserlen cyfarfodydd (Y Cyngor a'r pwyllgorau)	I gael copi caled cysylltwch â'r Clerc neu ewch ar y wefan	Am ddim
Agenda'r cyfarfodydd (fel uchod)	I gael copi caled cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Cofnodion y cyfarfodydd (fel uchod) – d.s. ni fydd hyn yn cynnwys yr wybodaeth a ystyrir yn breifat i'r cyfarfod	I gael copi caled cysylltwch â'r Clerc neu ewch ar y wefan	Am ddim
Adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfodydd y Cyngor – d.s. ni fydd hyn yn cynnwys yr wybodaeth a ystyrir yn breifat i'r cyfarfod	I gael copi caled cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Ymatebion i bapurau ymgynghori	I gael copi caled cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Ymatebion i geisiadau cynllunio	Cofnodion y Cyngor – ar y wefan neu cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Deddfau lleol	Nid yw hyn yn Berthnasol	
Categori 5 - Ein polisiau a gweithdrefnau (Y protocol ysgrifenedig presennol, y polisiau a gweithdrefnau ar gyfer darparu ein gwasanaethau a chyfrifoldebau) Yr wybodaeth bresennol yn unig		
Polisiau a gweithdrefnau ar gyfer gweithredu busnes y Cyngor Archebion sefydlog gweithdrefnol Cylchoedd gwaith y pwyllgor Yr awdurdod a roddir i swyddogion Cod Ymddygiad Datganiadau polisi	I gael copi caled cysylltwch â'r Clerc	10c y dudalen

Polisiâu a gweithdrefnau yn ymwneud â darparu gwasanaethau ac am gyflogaeth y staff Polisiâu mewnol yn ymwneud â darparu gwasanaethau Y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Y Polisi Iechyd a Diogelwch Y Polisi Penodi (yn cynnwys y swyddi cyfredol) Y polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer trin ceisiadau am wybodaeth Y drefn gwyno (yn cynnwys y rheiny sy'n ymwneud â cheisiadau am wybodaeth a gweithredu'r cynllun cyhoeddi gwybodaeth)	I gael copi caled cysylltwch â'r Clerc	10c y dudalen
Polisi diogelwch gwybodaeth	Nid yw hyn yn Berthnasol	
Polisiâu rheoli cofnodion (Cadw cofnodion, eu difa a'u harchifo)	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Polisiâu diogelu data	Cysylltwch â'r Clerc	10c y dudalen
Rhestr o gostau	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Categori 6 – Rhestrau a Chofrestrau Y rhestrau a'r cofrestrau sy'n cael eu cadw ar hyn o bryd yn unig		
Unrhyw gofrestr neu restr sydd ar gael yn gyhoeddus	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Cofrestr o Asedau	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Cofnod o Ddatgeliadau	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Cofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Cofrestr o Roddion a Lletygarwch	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Categori 7 – Y gwasanaethau a gynigiwn (Gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigiwn yn cynnwys taflenni, arweiniad a thafleuni newyddion a gynhyrchwyd i'r cyhoedd ac i fusnesau) Gwybodaeth gyfredol yn unig		
Cytundebau'r asiantaeth	Nid yw hyn yn Berthnasol	
Rhandiroedd	Nid yw hyn yn Berthnasol	
Ceisiadau am gymorth ariannol gan sefydliadau lleol	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Crynodeb o'r gwasanaethau y mae hawl gan y Cyngor i godi ffi amdanynt, ynghyd â'r ffioedd hynny.	Nid yw hyn yn Berthnasol	

Mynwentydd a mynwentydd eglwysi sydd wedi cau	Nid yw hyn yn Berthnasol	
Llochesi bysiau	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Goleuadau Nadolig	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Gwobrau Cymunedol	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Gofalwr y Gymuned	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Canolfannau cymunedol a neuaddau pentref	Nid yw hyn yn berthnasol	
Taflen Newyddion y Gymuned	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Goleuadau	Nid yw hyn yn berthnasol	
Biniau sbwriel	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Marchnadoedd	Nid yw hyn yn berthnasol	
Hysbysfyrddau	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Parciau, meysydd chwarae a chyfleusterau chwarae	Nid yw hyn yn berthnasol	
Cyfleusterau cyhoeddus	Nid yw hyn yn berthnasol	
Seddi cyhoeddus	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim
Gwefan	Cysylltwch â'r Clerc	Am ddim

**Manylion cysylltu: Mr. G. Roberts, Clerc Cyngor Cymuned Bagillt –
5, Ffordd Owain, Acton, Wrecsam LL12 8JL.
Ffôn: 01978 354617
E-bost: gareth@garethroberts62.entadsl.com**

RHESTR O'R COSTAU

Mae hwn yn disgrifio sut y penderfynwyd ar y costau a chânt eu cyhoeddi'n rhan o'r canllaw.

MATH O GOST	DISGRIFIAD	SAIL Y GOST
Cost Aildaliad	Llungopïo am 10c y daflen (du a gwyn)	Y gost wirioneddol*
	Llungopïo am ...c y daflen (lliw) Nid yw hwn ar gael	Y gost wirioneddol*
	Postio	Y gost wirioneddol* 2 ^{il} Ddosbarth safonol y Post Brenhinol
Cost Statudol		Yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol fel y bo'n briodol
Arall		Nid yw hyn yn berthnasol

* Y gost wirioneddol a godir ar yr awdurdod cyhoeddus